# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**2014 dccc 4**

**RHAN 6**

PLANT SY'N DERBYN GOFAL A PHLANT SY'N CAEL EU LLETYA

*Llety diogel*

VALID FROM 06/04/2016

**119 Defnyddio llety i gyfyngu ar ryddid**

(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau canlynol yr adran hon, ni chaniateir i blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol neu awdurdod lleol yn Lloegr gael ei leoli, ac os yw wedi ei leoli, ni chaniateir iddo gael ei gadw mewn llety yng Nghymru a ddarperir at y diben o gyfyngu ar ryddid ("llety diogel") onid yw'n ymddangos—

(a) bod y plentyn—

(i) yn un sydd â hanes o ddianc a'i fod yn debyg o ddianc o lety o unrhyw ddisgrifiad arall, a

(ii) yn debyg o ddioddef gan niwed o bwys os yw'n dianc, neu

(b) bod y plentyn, os yw'n cael ei gadw mewn llety o unrhyw ddisgrifiad arall, yn debyg o anafu ei hun neu bersonau eraill.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau—

(a) pennu—

(i) cyfnod na chaniateir i blentyn gael ei gadw y tu hwnt iddo mewn llety diogel yng Nghymru heb awdurdod y llys, a

(ii) y cyfnod hwyaf y caiff y llys awdurdodi bod plentyn yn cael ei gadw amdano mewn llety diogel yng Nghymru;

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/11/2014. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 119 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 01 Medi 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(b) rhoi pŵer i'r llys i awdurdodi o bryd i'w gilydd fod plentyn yn cael ei gadw mewn llety diogel yng Nghymru am unrhyw gyfnod pellach y bydd y rheoliadau yn ei bennu;

(c) darparu bod ceisiadau i'r llys o dan yr adran hon i'w gwneud gan awdurdod lleol **[**[F1]neu awdurdod lleol yn Lloegr**]** yn unig.

(3) Mae'n ddyletswydd ar lys sy'n gwrando cais o dan yr adran hon i ddyfarnu a yw unrhyw feini prawf perthnasol ar gyfer cadw plentyn mewn llety diogel wedi eu bodloni yn achos y plentyn.

(4) Os bydd llys yn dyfarnu bod unrhyw feini prawf o'r fath wedi eu bodloni, rhaid iddo wneud gorchymyn yn awdurdodi bod y plentyn i'w gadw mewn llety diogel ac yn pennu'r cyfnod hwyaf ar gyfer cadw'r plentyn felly.

(5) Os caiff gwrandawiad cais o dan yr adran hon ei ohirio, caiff y llys wneud gorchymyn interim yn caniatáu i'r plentyn gael ei gadw mewn llety diogel yn ystod cyfnod y gohiriad.

(6) Ni chaiff unrhyw lys arfer y pwerau a roddwyd gan yr adran hon mewn cysylltiad â phlentyn nad yw wedi ei gynrychioli'n gyfreithiol yn y llys hwnnw, oni bai ei fod, ar ôl cael ei hysbysu am ei hawl i wneud cais am **[**[F2]y ddarpariaeth o gynrychiolaeth o dan Ran 1 o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012**]** ac wedi cael cyfle i wneud hynny, wedi gwrthod neu wedi methu â gwneud cais.

(7) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddarparu—

(a) bod yr adran hon i'w chymhwyso neu nad yw i'w chymhwyso i unrhyw ddisgrifiad o blant a bennir yn y rheoliadau;

(b) bod yr adran hon yn cael effaith mewn perthynas â phlant o ddisgrifiad a bennir yn y rheoliadau yn ddarostyngedig i addasiadau a bennir yn y rheoliadau;

(c) bod darpariaethau eraill a bennir yn y rheoliadau i gael effaith at ddibenion dyfarnu a ganiateir i blentyn o ddisgrifiad a bennir yn y rheoliadau gael ei leoli neu ei gadw mewn llety diogel yng Nghymru.

(8) Nid yw rhoi awdurdodiad o dan yr adran hon yn rhagfarnu unrhyw bŵer sydd gan unrhyw lys yn Lloegr a Chymru i roi cyfarwyddiadau ynglŷn â'r plentyn y mae'r awdurdodiad yn ymwneud ag ef.

(9) Nid yw rhoi awdurdodiad o dan yr adran hon yn rhagfarnu effaith unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan lys yn yr Alban ynglŷn â phlentyn y mae'r awdurdodiad yn ymwneud ag ef, i'r graddau y mae'r cyfarwyddyd yn cael effaith yng nghyfraith Lloegr a Chymru.

(10) Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i adran 76(5).

**[**[F3](11) Bydd gorchymyn a wneir o dan yr adran hon mewn perthynas â phlentyn, pe byddai fel arall yn parhau i fod mewn grym, yn peidio â chael effaith pan fydd y plentyn yn cyrraedd 18 oed.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn a. 119(2)(c) wedi eu mewnosod (6.4.2016) gan Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016 (O.S. 2016/413), rhlau. 2(1), **304(a)**

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/11/2014. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 119 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 01 Medi 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

**F2** Geiriau yn a. 119(6) wedi eu hamnewid (6.4.2016) gan Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016 (O.S. 2016/413), rhlau. 2(1), **304(b)**

**F3** A. 119(11) wedi ei fewnosod (6.4.2016) gan Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016 (O.S. 2016/413), rhlau. 2(1), **304(c)**

### Addasiadau (ddim yn newid testun)

**C1** A. 119 wedi ei eithrio (6.4.2016) gan Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) 2015 (O.S. 2015/1988), rhlau. 1(2), **14**

**C2** A. 119 wedi ei addasu (6.4.2016) gan Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) 2015 (O.S. 2015/1988), rhlau. 1(2), **15**

**C3** A. 119 cymhwyswyd (gydag addasiadau) (6.4.2016) gan Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) 2015 (O.S. 2015/1988), rhlau. 1(2), **16**

### Gwybodaeth Cychwyn

**I1** A. 119 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 199(2)**

**I2** A. 119 mewn grym ar 6.4.2016 gan O.S. 2016/412, **ergl. 2** (ynghyd ag ergl. 4, Atod. 1, Atod. 2)

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/11/2014. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 119 yn gyfredol gyda’r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 01 Medi 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.